Deg Awgrym Gwych ar gyfer Cyflwyno Hawliau yn eich Ysgol

Mae'r syniadau hyn wedi cael eu haddasu o 'Sixty ideas for RRSA starters' a ddatblygwyd gan Ysgol Gymunedol Peacehaven, Dwyrain Sussex, fel rhan o'u gwaith ar gyfer Dyfarniad Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF.

Geirfa allweddol:

Hawliau Plant "Pethau rydych chi eu hangen i fod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel"

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn [CCUHP] "Y ddogfen ryngwladol sy'n cyflwyno hawliau ein plant"

Comisiynydd Plant Cymru "Rocio Cifuentes yw Comisiynydd Plant Cymru. Ei gwaith hi yw helpu holl blant Cymru i fod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel"

1. Crewch siarter ysgol gyfan wedi'i seilio ar hawliau. Fe wnaeth un ysgol gynradd yn Abertawe gynnwys rhieni, athrawon a disgyblion i benderfynu ar 10 hawl y bydden nhw'n canolbwyntio arnynt yn eu siarter.

2. Gwahoddwch eich disgyblion i fynd ar daith hawliau o amgylch yr ysgol er mwyn canfod arddangosfeydd sy'n cysylltu â hawliau e.e. cysylltiad rhwng Erthygl 12 â'r Cyngor Ysgol; cysylltiad rhwng Erthygl 24 a bwyd iach. Yna ychwanegwch yr hawliau at yr arddangosfeydd.

3. Gofynnwch i'r disgyblion ystyried hawl eu pen-blwydd a sut maen nhw'n ei phrofi, e.e. os yw eich pen-blwydd ar y 3ydd gallwch chi ddewis Erthygl 3.

4. Cysylltwch hawliau â diwrnodau a digwyddiadau arbennig yn ystod y flwyddyn, e.e. Dydd Gŵyl Dewi a 'dy hawl i gael enw a chenedl', wythnos gwrthfwlio a 'dy hawl i fod yn ddiogel'.

5. Rhowch hawl i bob fîm. Mae angen iddyn nhw ddadlau bod yr hawl hon yn hanfodol. I estyn hynny, gallai'r disgyblion esbonio sut mae eu hawl yn cyflawni egwyddorion arweiniol CCUHP [Diogelu, Datblygu, Dweud eich Dweud, Dal yn Fyw: gallwch lawrlwytho adnodd poster defnyddiol sy'n dangos yr egwyddorion arweiniol o becyn symbolau CCUHP].

6. Ysgrifennwch lythyr at blentyn yn y gorffennol i ddweud sut mae hawliau plant wedi newid. Gallwch chi gysylltu'r dasg hon â chyfnodau hanes rydych chi'n eu hastudio, e.e. Pobl oes Victoria, yr Ail Ryfel Byd.

7. Lluniwch acrostig ar gyfer y gair HAWLIAU.

8. Gall y Llysgenhadon greu arddangosfa am Gomisiynydd Plant Cymru sy'n dangos sut mae cysylltu â'r swyddfa i gael help gyda hawliau. Gallan nhw ddefnyddio ein gwefan ni i gael hyd am adnoddau ychwanegol a'u rhannu gyda'u cymheiriaid.

9. Cysylltwch hawliau plant â'ch hoff lyfrau a ffilmiau, e.e. sut mae Harry Potter neu Matilda yn cael profiad o'i hawliau (neu beidio)?

10. Dewch o hyd i erthygl yn y papur newydd heddiw sy'n ymwneud â hawliau plant.

Dathlwch eich gwaith trwy drydar ar @complantcymru. Byddwch chi hefyd yn cael hyd i syniadau am sut mae eraill yn addysgu a dysgu am hawliau trwy ddefnyddio #AwrHawliau.